Department for Culture Media & Sport

# Adolygiad o Siarter y BBC 2016

## Taflen Wybodaeth
## Craffu Cyhoeddus a Seneddol

*Ar 15 Medi 2016 cyhoeddodd y llywodraeth Siarter Frenhinol a Chytundeb Fframwaith drafft. Mae hon yn un o gyfres o daflenni gwybodaeth, sy'n esbonio rhai o'r polisïau allweddol sydd yn y drafftiau yn fanylach.*

**Cefndir**

Mae'r cynigion ar gyfer Adolygiad o'r Siarter a nodwyd gan y Llywodraeth mewn Papur Gwyrdd ym mis Gorffennaf 2016 yn destun un o ymgynghoriadau mwyaf y llywodraeth erioed. Derbyniodd y llywodraeth fwy na 300 o ymatebion ysgrifenedig gan arbenigwyr yn y diwydiant a'r cyfryngau, a 192,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan y cyhoedd. Canlyniad hyn oedd y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016.

Mae'r llywodraeth erbyn hyn wedi cyhoeddi Siarter a Chytundeb Fframwaith drafft, a fydd yn destun craffu seneddol pellach. Mae'r dogfennau hyn yn adlewyrchu'r polisïau a nodwyd yn y Papur Gwyn a cwblhawyd y gwaith drafftio cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r BBC ac Ofcom.

**Craffu seneddol**

*Dadleuon yn y Gweinyddiaethau Datganoledig* - Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo - fel rhan o'r Memorandwm Dealltwriaeth, a chytundeb Comisiwn Smith - i ddadleuon ym mhob un o'r deddfwrfeydd datganoledig am y tro cyntaf. Gall y rhain ddigwydd dros yr wythnosau nesaf a bydd y llywodraeth yn gwrando'n ofalus ar y materion a godwyd yn y dadleuon hyn.

*Dadleuon yn San Steffan* **-** Yn amodol ar fusnes arall yn y Tŷ, gall Senedd San Steffan wedyn ystyried y dogfennau drafft, gan gynnwys y deillianau o'r dadleuon yn y cynulliadau datganoledig. Cynhelir y dadleuon hyn ym mis Hydref.

*Cyfrin Gyngor* - Yn dilyn y dadleuon yn San Steffan, bydd y llywodraeth yn ystyried y pwyntiau a godwyd ac yn diweddaru'r dogfennau drafft yn ôl yr angen. Yna caiff y Siarter ddrafft ei chyflwyno i'r Cyfrin

Gyngor ym mis Tachwedd, er mwyn i'r Siarter newydd gael ei chymeradwyo cyn diwedd y flwyddyn, pan ddaw'r Siarter  bresennol i ben.